***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1511

# Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“*Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf(**1**);

ystyr “Byrddau Iechyd Lleol blaenorol” (“*former Local Health Boards*”) yw'r ddau Fwrdd Iechyd Lleol ar hugain a sefydlwyd ar 10 Chwefror 2003 gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003(**2**);

ystyr “Deddf 1989” (“*the 1989 Act*”) yw Deddf Plant 1989(**3**);

ystyr “y dyddiad perthnasol” (“*the relevant date*”) yw 1 Hydref 2009;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “gofal parhaus” (“*continuing care*”) yw gofal a ddarperir dros gyfnod estynedig o amser i berson er mwyn bodloni anghenion iechyd corfforol neu feddyliol sydd wedi digwydd o ganlyniad i salwch;

mae'r ymadrodd “Gorchymyn BILl” i'w ddehongli'n unol â'r ymadrodd “LHB Order” yn adran 11(2) o'r Ddeddf;

mae i'r ymadrodd “gwasanaethau deintyddol sylfaenol” yr ystyr sydd i'r ymadrodd “primary dental services” yn adran 56 o'r Ddeddf;

mae i'r ymadrodd “gwasanaethau fferyllol” yr ystyr sydd i'r ymadrodd “pharmaceutical services” yn adran 80(8) o'r Ddeddf;

mae i'r ymadrodd “gwasanaethau meddygol sylfaenol” yr ystyr sydd i'r ymadrodd “primary medical services” yn adran 41 o'r Ddeddf; ac

mae i'r ymadrodd “gwasanaethau offthalmig cyffredinol” yr ystyr sydd i'r ymadrodd “general ophthalmic services” yn adran 71(10) o'r Ddeddf.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, ac yn ddarostyngedig i reoliad 3, y personau sy'n preswylio fel arfer yn yr ardal y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei sefydlu ar ei chyfer yw'r personau y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol amdanynt mewn unrhyw flwyddyn.

(3) Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd y gall Gweinidogion Cymru ei roi o ran unrhyw achos penodol neu ddosbarthau o achos, os oes amheuaeth o ran ble y mae person yn preswylio fel arfer at ddibenion paragraff (2) —

(**1**) Sefydlwyd Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148 (Cy.18)) a sefydlwyd BILl Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, BILl Aneurin Bevan, BILl Prifysgol Betsi Cadwaladr, BILl Prifysgol Caerdydd a'r Fro, BILl Cwm Taf a BILl Hywel Dda o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy. 66 )).

(**2**) O.S. 2003/148 (Cy.18).

(**3**) 1989 p.41.

(a) mae'r person i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y cyfeiriad a roddwyd ganddo, yn gyfeiriad y mae'r person fel arfer yn preswylio ynddo, i'r person neu'r corff sy'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer;

(b) os nad yw'r person yn rhoi unrhyw gyfeiriad o'r fath, mae ef i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y cyfeiriad y mae'n ei roi, yn gyfeiriad mwyaf diweddar y person, i'r person neu'r corff sy'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer;

(c) os na ellir cadarnhau cyfeiriad arferol y person o dan is-baragraffau (a) a (b) uchod, mae ef i gael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn yr ardal y mae'r person yn bresennol ynddi.